



# **Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig**

Cynigion polisi a gofynion allweddol

Ionawr 2021

## CYFLWYNIAD

- Mae'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd yn sgil yr her ddwbl o ddelio ag effaith pandemig a gadael yr UE yn rhoi ffocws penodol a brys o ran gweithredoedd ac ymyriadau rydym bellach eisiau eu gweld yn cael eu mabwysiadu a'u gweithredu gan Lywodraethau'r DU a Chymru.
- Mae Fforwm Wledig CLILC yn cydnabod rôl hollbwysig y diwydiant amaeth yn yr economi wledig ac wrth gynnal cymunedau gwledig, gan gynnwys rôl cwmnïau bach teuluol wrth gynnal y Gymraeg a rheoli'r tirlun gwledig. Mae CLILC yn cefnogi polisiau amaeth sy'n diogelu diwydiant gwydn yn economaidd, gan gynhyrchu bwyd fforddiadwy a chadw at safonau uchel o ran rheoli'r amgylchedd a lles anifeiliaid. Bydd y Fforwm Wledig yn parhau i lobïo fel y bo'n briodol ar yr holl faterion hynny.
- Mae'r weledigaeth a gaiff ei hamlinellu yma'n cynnwys cynigion polisi ar gyfer yr economi wledig sy'n ceisio gwella ac ategu polisi amaeth yn y dyfodol drwy fynd i'r afael â'r ystod gymhleth o heriau a nodwyd gan aelodau'r Fforwm. Mae'r rhain yn cynnwys y sail sgiliau mewn ardaloedd gwledig, a buddsoddiad mewn gweithgareddau i ychwanegu gwerth at yr ystod o gynhyrchion cynradd sy'n deillio o weithgarwch ffermio.

## RHAN 1 – EIN CYNIGION POLISI A GOFYNION ALLWEDDOL

### **1. Amrywio'r sail economaidd gyda dull economi gylchol tuag ar gyfer cynnyrch gwledig naturiol.**

#### **Mae gwella cynhyrchiant ardaloedd gwledig yn cynnig cyfleoedd i greu cyflogaeth o ansawdd uchel, yn diogelu'r Gymraeg a chadw pobl ifanc.**

- i) Nodi marchnadoedd a chynhyrchion newydd i ychwanegu gwerth at y sail cynhyrchion o amaeth, coedwigaeth, a'r sector forol.
- ii) Archwilio cyfleoedd ar gyfer technegau modern, fel amaeth digidol a ffermio fertigol.
- iii) Cydnabod gwerth strategol Cymru wledig fel man arbrofi ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy newydd a buddsoddi mewn swyddi a thwf busnes.
- iv) Buddsoddi mewn cynhyrchiant technoleg uchel i helaethu gwerth o gadwyni protein, gan adeiladu ar yr economi gylchol ac egwyddorion dim gwastraff.
- v) Mynd i'r afael â chyfleoedd y farchnad yn y sectorau iechyd a maetheg ar gyfer cynhyrchion a all ddeillio o arferion ffermio a physgota Cymreig.
- vi) Cydnabod gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle a manteisio ar gynllun peilot ARFOR i archwilio'r cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd.
- vii) Gwireddu potensial economaidd Ymchwil a Datblygu o safon ryngwladol i ychwanegu gwerth i gynhyrchion gwledig, yn enwedig yn sectorau megis biothechnoleg, technoleg gwyrdd a gweithgynhyrchu uwch, â chysylltiadau ffurfiol rhwng sefydliadau fel Campws Arloesi Aberystwyth a'r Canolbwynt Gwyddorau Bywyd i ddatblygu marchnadoedd gwerth uchel

## **2. Rhaglen ieuenctid wledig wedi'i thargedu i fuddsoddi, gwella sgiliau, denu a chadw pobl ifan disglair a medrus mewn cymunedau gwledig**

- i) Sefydlu Canolfannau Rhagoriaeth STEMM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg ac Arian) drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau o safon uchel mewn Sefydliadau Addysg Bellach gwledig er mwyn cynnig hyfforddiant i bobl ifanc, yn ogystal â chyfleoedd i uwchsgilio oedolion yn y gwaith a chyfleoedd ailhyfforddi, wedi'u targedu ar y sectorau a ganlyn -
- Gwyddorau Bwyd
  - Digidol ac Electroneg
  - Amaethyddiaeth yr 21 ganrif
  - Gofal iechyd a Gwyddorau Meddygol
  - Isadeiledd Carbon Isel
  - Diwydiannau Creadigol
  - Economi Gylchol
  - Gweithgynhyrchu Uwch
  - Bioeconomi
- Cyrff llywodraethu i sicrhau cynrychiolaeth o gwmnïau angori allweddol ac entrepreneuriaid lleol i gynnig cysylltiadau clir a diriaethol â'r farchnad gyflogaeth leol. Cyfle i ddatblygu prentisiaethau wedi eu teilwra a rhaglenni hyfforddiant mewn gwaith.
- ii) Datblygu sgiliau entrepreneuriaid a gosod hunangyflogaeth fel llwybr gyrfa i'w ddyheu, drwy fentora ac adeiladu ar gynlluniau fel 'Llwyddo'n Lleol'.
- iv) Hyfforddi a recriwtio gweithwyr iechyd proffesiynol i weithio yn y Gymru Wledig, gan gynnwys cefnogaeth i Ysgol Nyrsio Aberystwyth, Ysgol Feddygaeth Gogledd Cymru, a rhaglen hyfforddi Meddygon Teulu Gwledig Prifysgol Caerdydd, a dileu benthyciadau myfyrwyr graddedigion iechyd a meddygaeth sy'n cymryd swyddi yn y Gymru Wledig.
- V) Uwchsgilio busnesau bach a masnachwyr i fanteisio ar gyfleoedd technolegol newydd a chefnogi cynllunio olyniaeth drwy wella cyfleoedd i unig fasnachwyr, microfentrau a sefydliadau bach gymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaeth.

## **3. Ychwanegu gwerth at isadeiledd gwledig**

- i) Ymrwymiad i ddarpariaeth band eang cyffredinol ac isadeiledd symudol digidol i alluogi trigolion a busnesau yng Nghymru Wledig i gyfateb galluoedd digidol ardaloedd eraill mwy trefol.
- ii) Gwelliannau sylweddol i isadeiledd ffyrdd gwledig, gan gynnwys cyfleusterau gwefru ar gyfer cerbydau electronig ac ymrwymadau i wella cyfnodau teithio a phrofiad gyrru ar ffyrdd allweddol.
- iii) Datblygu cludiant cyhoeddus arloesol wedi'i arwain gan y galw mewn ardaloedd gwledig sy'n cwrdd â phatrymau cymudo lleol, ac wedi eu cysylltu â'r ddarpariaeth i ymwelwyr, wedi eu gyrru gan ffynonellau tanwydd adnewyddadwy.
- iv) Mae angen rhoi ystyriaeth lawn i deithio llesol mewn cyd-destun gwledig. Mae datblygiadau yn yr ystod o e-feiciau wedi creu cyfleoedd ar gyfer cymudo a

chludiant i'r ysgol mewn ardaloedd gwledig ond mae buddsoddiad mewn llwybrau diogel yn allweddol i ddatgloi ei botensial llawn.

- v) Buddsoddi yng ngallu'r grid mewn ardaloedd gwledig i ganiatáu symud i gludiant di-garbon.
- vi) Nodi dulliau o ddatblygu gwresogi di-garbon ar gyfer eiddo oddi ar y grid, buddsoddi mewn prosiectau peilot tanwydd hydrogen ar gyfer cartrefi gwledig newydd ac ôl-osod mewn cartrefi eraill.
- vii) Cefnogi dyheadau am Ddyfodol Di-garbon. Dylai prosiectau ynni yn y dyfodol ganfod dulliau o ychwanegu gwerth i argaeledd ynni adnewyddadwy a denu busnesau gweithgynhyrchu i leoli yn agos atynt. Bydd hyn yn sicrhau dosbarthiad ynni effeithlon yn agos at y ffynhonnell gynhyrchu a sicrhau fod Cymru Wledig yn cadw buddion cymdeithasol ac economaidd cynhyrchiant ynni cynradd.
- viii) Sicrhau fod buddsoddiad mewn isadeiledd Cymreig o'r 'Fargen Newydd i Brydain'<sup>1</sup> i fuddsoddi yng nghyfleusterau gofal iechyd, addysg, a chludiant yr 21 ganrif ar gyfer cymunedau gwledig.

#### **4. Sector Dwristiaeth gynaliadwy sy'n cefnogi cymunedau, busnesau a phobl lleol**

- i) i) Gwrthdroi effeithiau cyfyngiadau Covid-19 ar y sector dwristiaeth a lletygarwch gydag ymgyrch farchnata i groesawu ymwelwyr yn ôl i Gymru, gan fanteisio ar y cyfle i ailddiffinio ac ail-gydbwysu twristiaeth ledled Cymru a thrwy dymor estynedig drwy reolaeth ymwelwyr deinamig a alluogir gan dechnoleg a datblygu cynigion gwerth uchel newydd.
- ii) Cymorth ar gyfer mentrau a phrosiectau twristiaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n eiddo i'r gymuned, gan annog ymgysylltu â threftadaeth a diwylliant lleol, gwariant gyda busnesau lleol, a gweithgareddau effaith isel.
- iii) Cyflwyno deddfwriaeth gynllunio sy'n gorchymyn cael newid defnydd ffurfiol ar gyfer gosod eiddo tymor byr dan gynlluniau fel *Air BnB*, a chanllawiau i fynd i'r afael â phwysau tai mewn ardaloedd lle mae canran uchel o ail gartrefi.

iv) Adolygu cymhwysedd eiddo 'preswyl' i dderbyn rhyddhad ardrethi busnes 100% ac osgoi talu unrhyw Dreth y Cyngor.

#### **5. Tai i adlewyrchu anghenion cymunedau lleol**

Mae argaeledd tai yn bryder allweddol mewn ardaloedd gwledig, gyda'r cyflenwad wedi'i gyfyngu gan ddatblygwyr tai llai yn gweithredu yn yr ardal, ynghyd â phrisiau eiddo uwch wedi eu gwthio gan berchnogaeth ail gartrefi a gosodiadau tymor byr. Mae pobl ifanc yn dyheu i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain i'w galluogi i fyw a gweithio yn yr ardaloedd y cawsant eu magu. Mewn sawl cymuned wledig, mae hyn yn cael effaith ar y Gymraeg, gyda siaradwyr Cymraeg ifanc yn allfudo gan eu bod yn cael trafferth i ddod o hyd i dai addas.

---

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/news/pm-a-new-deal-for-britain>

- i) Cyflwyno polisiâu cynllunio hyblyg sy'n adlewyrchu anghenion a chapasiti cymunedau gwledig yn well er mwyn ysgogi economïau lleol a helpu i gadw trigolion iau. Gallai opsiynau i gynyddu tai gynnwys darpariaethau i awdurdodau lleol neilltuo tir datblygu yn benodol i gwrdd ag anghenion tai lleol a dewisiadau hunanadeiladu lle mae gan bobl ifanc fynediad at dir.
- ii) Llobio am gyllid digonol ar gyfer cymorthdaliadau cyfalaf i adeiladu tai fforddiadwy ar draws amryw o ddaliadaethau mewn ardaloedd gwledig gydag angen diffiniedig am dai lleol.
- iii) Gallai opsiynau i archwilio tai cydweithredol mewn eiddo cymunedol gwag, fel ysgolion a thafarndai sydd wedi cau, gynnig llety fforddiadwy i bobl ifanc i fyw'n annibynnol.
- iv) Manteisio ar argaeledd cynhyrchion pren a ffibrau fel gwlan Cymreig, i ddatblygu tai modiwlwr cost isel yn seiliedig ar Ddulliau Adeiladu Modern. Byddai hyn yn arwain at godi rhagor o gartrefi yn gyflymach, i safonau effeithlon, ac ymarfer adeiladu diogel.
- v) Cyflwyno mesurau i ddiogelu enwau lleoedd ac eiddo Cymreig.
- vi) Codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg ymhlith y rhai hynny sy'n prynu cartrefi o fewn cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg.

## **6. Trefi Gwledig Clyfar a Ffyniannus**

- i) Menter Trefi Clyfar i ddarparu isadeiledd digidol, gan gynnwys wi-fi cyhoeddus a chanolbwyntiau gweithio a swyddfeydd a rennir, i drefi marchnad, a'u grymuso i ddefnyddio technolegau digidol a data i wella cynllunio cymunedol, darparu gwasanaethau a chynorthwyo busnesau lleol.
- ii) Rhaglen dreigl o fuddsoddiad cyfalaf mewn safleoedd cyflogaeth addas a modern i gefnogi datblygiad a thwf busnesau mewn sectorau gan gynnwys technoleg bwyd, biothechnoleg a thechnoleg gwyrdd. Gweithio gyda busnesau a mentrau newydd i fuddsoddi mewn eiddo gradd bwyd a fferyllol i gefnogi twf gydag unedau dechrau arni newydd i fentrau newydd.
- iii) Sefydlu canolbwyntiau creadigol mewn lleoliadau yng Nghymru wledig sy'n canolbwyntio ar ffilm, cerddoriaeth, dylunio, a gemau cyfrifiadurol, pob un wedi eu hangori gan sefydliad neu gwmni sefydledig a darparu cyfleusterau a mynediad i dechnoleg ac isadeiledd arbenigol ar gyfer clystyrau o fentrau bach a gweithwyr llawrydd.
- iv) Cefnogi'r fenter Banc Cambria ac undebau credyd lleol i ariannu cyfleusterau bancio mewn cymunedau lle mae canghennau banciau masnachol wedi cau.

## **7. Adeiladu Cyfoeth Cymunedol a mynd i'r afael â'r Canol Coll**

Mae'r pandemig Covid-19 cyfredol wedi amlygu'r angen am gadwyni cyflenwi byr, sefydlog ar gyfer nwyddau allweddol fel bwyd a diod, deunyddiau adeiladu, PPE, offer meddygol a gofal, a chynhyrchion fferyllol. Mae gan yr economi wledig yr adnoddau i gyflenwi'r cynhwysion cychwynnol ar gyfer nifer o'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn, naill ai drwy gynhyrchion amaeth a choedwigaeth, neu ynni adnewyddadwy sydd ar gael yn rhwydd i gynhyrchu nwyddau.

- i) Cydnabod rôl y sector cyhoeddus fel sefydliadau angori yn yr economi wledig a mabwysiadu polisiâu caffael deinamig sy'n cefnogi busnesau gwledig, gan gydnabod eu gwerth i'r economi wledig ac awdurdodau lleol wrth gefnogi busnesau lleol a swyddi, hyd yn oed os yw'r costau prynu cychwynnol yn uwch ar y dechrau ('premiwm cadernid').
- ii) Cyflwyno pecyn o weithredoedd i gefnogi prosesu bwyd, ymestyn marchnadoedd ffermwyr, cynlluniau clicio a chasglu, a pheiriannau gwerthu uniongyrchol. Ynghyd â chynllun ardystio ar gyfer siopau, bwytai a lleoliadau lletygarwch sy'n cael 50% o'u cynnyrch gan dyfwyr a chyflenwyr lleol.
- iii) Cynlluniau gweithredu i wella gofal plant a darpariaeth gofal arall mewn cymunedau gwledig drwy gyfuno darpariaeth y sectorau masnachol, sefydliadol a gwirfoddol a rhwydweithiau cymunedol anffurfiol sy'n briodol at anghenion lleol.
- iv) Dylai cynlluniau economi sylfaen Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar lyfnhau twf ar gyfer busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau hyn, gan ddarparu adnoddau ariannol a gwybodaeth i gefnogi twf busnesau o fusnesau micro a llenwi 'canol coll' economi Cymru.
- v) Gyda chyfraddau llog isel, mynd ati i ddatblygu cynllun buddsoddiad lleol i gefnogi twf busnes ac ehangu gyda llywodraeth yn gwarantu benthyciadau, drwy gynllun benthyca gwledig rhwng cymheiriaid. Gallai hyn ddatgloi buddsoddiad i fusnesau dyfu, a chynnig enillion ffafriol i bobl leol sy'n awyddus i gynilo neu wella eu henillion ymddeol

## **RHAN 2 – CEFNDIR A CHYD-DESTUN**

Mae mwyafrif arwynebedd tir Cymru yn wledig ac mae traean o boblogaeth Cymru'n byw mewn awdurdod lleol sy'n aelod o Fforwm Wledig CLILC: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Fynwy. Mae'r siroedd hyn yn wynebu heriau tebyg sy'n deillio o'u natur wledig, sy'n cynnwys cysylltedd gwael sy'n cael effaith ar allu trigolion i gael mynediad at wasanaethau, a chostau uwch darparu gwasanaeth mewn ardaloedd gyda phoblogaeth wasgareddig.

Mae Cymru Wledig yn ranbarth mawr ac amrywiol sy'n cynnwys cymunedau mewn sawl gwahanol leoliad. Mae cyhoeddiad diweddar yr OECD ar Les Gwledig<sup>2</sup> yn diffinio tri gwahanol fath o natur wledig, ac mae pob un ohonynt i'w cael yng Nghymru:

1. Ardaloedd gwledig y tu mewn i ardaloedd trefol gweithredol (FUAs)
2. Ardaloedd gwledig y tu allan ond yn agos at ardal drefol weithredol
3. Ardaloedd gwledig anghysbell

<sup>2</sup> <https://www.oecd-ilibrary.org/sites/d25cef80-en/1/3/1/index.html?itemId=/content/publication/d25cef80-en&csp=b742f7b6d3156322b4ff6d200a99c890&itemIGO=oecd&itemContentType=book#section-d1e437>

Mae'r Weledigaeth Wledig yn mynd i'r afael yn bennaf â'r heriau a'r cyfleoedd i ardaloedd gwledig anghysbell, sydd wedi cynnwys i raddau helaeth o fewn ardaloedd aelodau Fforwm Wledig CLILC. Fodd bynnag, mae'n cydnabod fod ardaloedd gwledig hefyd i'w cael mewn rhannau eraill o Gymru, yn nes at ardaloedd trefol, gan gynnwys wardiau sydd wedi elwa ar gefnogaeth dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Gall yr ardaloedd hyn hefyd wynebu heriau cysylltedd a chostau uwch, yn ogystal â'u materion unigryw eu hunain.

Mae'r ymyriadau polisi a awgrymir fel rhan o'r Weledigaeth Wledig yn amrywio yn eu perthnasedd i wahanol rannau o Gymru. Mae rhai'n berthnasol i holl gymunedau gwledig Cymru, a'r gweddill yn bennaf i'r ardaloedd gwledig anghysbell sydd o fewn ardaloedd aelodau Fforwm Wledig CLILC, neu gymunedau yn yr ucheldiroedd, neu gymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf.

### **EIN DYHEADAU AR GYFER CYMRU WLEDIG**

- Dymunwn gael Cymru Wledig gyda chymunedau gwledig ffyniannus a chydbwysedd o ran oedran.
- Dymunwn gael Cymru Wledig o bentrefi a threfi marchnad bywiog, lle mae technolegau clyfar yn helpu busnesau a sefydliadau i gael eu cysylltu'n well.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle caniateir i'r Gymraeg ffynnu a mynd o nerth i nerth.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle mae pobl wedi'u cyflogi mewn swyddi o ansawdd uchel gyda chyflogau da.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle mae pobl yn byw mewn cymunedau drwy gydol y flwyddyn, lle mae adeiladau segur yn cael eu defnyddio unwaith eto, a lle gall pobl ifanc fforddio cael eu cartrefi eu hunain.
- Dymunwn gael Cymru Wledig gyda diwylliant bwyd lleol cyfoethog.
- Dymunwn gael Cymru Wledig gydag isadeiledd modern sy'n cwrdd ag anghenion cysylltedd a dyfodol o ynni di-garbon.
- Dymunwn gael Cymru Wledig sydd wedi'i grymuso gan ynni adnewyddadwy, gyda llwybrau teithio diogel, ac egnïol a gwasanaethau cludiant cyhoeddus wedi'u cysylltu'n dda.
- Dymunwn gael Cymru Wledig gyda diwydiant twristiaeth gynaliadwy, sy'n cefnogi busnesau teuluol annibynnol, sy'n buddsoddi yn eu cymunedau lleol.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle mae cenhedlaeth newydd o ffermwyr yn arfer amaethyddiaeth gynaliadwy, gan gydbwyso technoleg fodern ac arferion diwylliannol traddodiadol.

### **Bygythiadau Uniongyrchol**

Mae canlyniadau gadael yr UE, Cytundeb Masnach tenau, a chynigion deddfwriaethol domestig wedi hynny yn bwrw cysgod dros economi wledig sydd eisoes yn fregus yn sgil effeithiau pandemig Covid-19.

- Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn ddarn eang a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n bygwth tanseilio datganoli. Gallai arwain at fecanweithiau amaeth a chymorth gwledig dargyfeiriol a ras bosibl at y gwaelod gan y gall yr egwyddor o gydnabyddiaeth gydfuddiannol danseilio cynhyrchiant bwyd gwerth uchel gan gynhyrchwyr Cymreig.



- Mae angen camau diogelu digonol ar gyfer y Sector Bwyd Amaeth i sicrhau nad yw unrhyw fewnforion o fargeinion masnach yn y dyfodol yn tanseilio'r safonau uchel o ran lles anifeiliaid a mesurau amgylcheddol a fabwysiedir gan arferion ffermio Cymreig.
- Nid yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r cyflenwad bwyd er lles y cyhoedd, gyda gogwydd tuag at fesurau amgylcheddol fel sail i ymyriadau datblygu gwledig. Mae'r methiant i gydnabod yr angen i gefnogi mesurau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn bygwth y lifrau ariannol sydd angen i lywio'r economi wledig tuag at ddyfodol bywiog.
- Mae ansicrwydd yn parhau o amgylch y Gronfa Ffyniant ar y Cyd a mecanwaith i gymryd lle'r £3bn (yr UE ac Arian Cyfatebol) a ddyrennir i Gymru fel rhan o'r cylch cyfredol o Gyllid Strwythurol Ewropeaidd. Mae'r cyllid hwn yn cynnig buddsoddiad sydd ei ddirfawr angen mewn sgiliau, cymorth i fusnesau ac isadeiledd cyfalaf yng Nghymru wledig.
- Gallai'r symud tuag at ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau a sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol arwain at i raglenni twf trefol fwrw materion gwledig i'r cysgod.

### **Cyfleoedd i Gymru Wledig**

Mae gweithgareddau yng Nghymru wledig yn help cymell twf mewn ardaloedd trefol, gan weithredu fel ffynonellau ynni cynradd, bwyd a dŵr. Mae ardaloedd gwledig hefyd yn darparu manau i boblogaethau trefol anadlu a mwynhau gweithgareddau hamdden, sydd yn eu tro yn defnyddio'r gwasanaethau a'r isadeiledd a ddarperir gan awdurdodau gwledig. Fel gwlad wledig yn bennaf, mae twf trefol yng Nghymru yn gwneud defnydd mawr o nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan ardaloedd gwledig, ac felly dylid cydnabod datblygu gwledig fel cydran hanfodol o ddatblygiad a lles economaidd Cymru.

- Mae twf ar draws y pedwar rhanbarth economaidd a Bargeiniau Dinesig a Tŵf yn dibynnu ar gyd-gysylltedd rhwng ardaloedd gwledig a threfol gyda chysylltiadau economaidd cryf â chytrefi trefol mwy ar hyd yr A55 yng Ngogledd Cymru a'r M4 yn Ne Cymru sy'n cymell twf a datblygiad.
- Gyda digonedd o adnoddau naturiol, a gweithlu gwledig sy'n fedrus mewn amaeth a rheoli tir, mae Cymru Wledig yn cynnig y cyfleoedd i fuddsoddi mewn adferiad economaidd gwyrdd, drwy ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac isadeiledd gwyrdd i fynd i'r afael â datgarboneiddio a'r argyfwng newid hinsawdd.
- Mae Cymru Wledig a chymunedau amaethyddol yn gadarnleoedd i'r Iaith Gymraeg ac mae cynnal sail economaidd cadarn yn yr ardaloedd hyn yn cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.
- Dylid dathlu sector Bwyd a Diod Cymru fel y sector Bwyd a Diod sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae Cymru Wledig, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei safon a'i darddiad, yn cynnig y prif sail ar gyfer cyfleoedd twf yn y sector yn y dyfodol.
- Ar sail llwyddiant y strategaeth Bwyd a Diod, gyda chydlynu a buddsoddiad, mae cyfleoedd i ddatblygu twf economi gylchol mewn deunyddiau adeiladau wedi'u tyfu yng Nghymru o bren cynaliadwy a ffibrau sy'n deillio o amaeth da byw, fel gwlan Cymreig.
- Mae rhanbarthau arfordirol o Gymru Wledig yn cynnig cyfleoedd lluosog i'r diwydiannau morol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, bwyd môr, a chyfleoedd



unigryw am dwristiaeth gyda gwerth ychwanegol sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt morol a'r morlun.

- Mae gan Gymru Wledig sail gweithgynhyrchu gadarn, gyda llafurlu lleol medrus sy'n brin ar draws y DU. Mae cyfleoedd i ddatblygu clystyrau o sectorau penodol yn seiliedig ar leoedd er mwyn dysgu a thyfu o gwmnïau fel denim Hiut yn Aberteifi a Fashion-Enter yn y Drenewydd, sydd wedi cydnabod y cyfleoedd a datblygu marchnadoedd newydd.
- Harddwch naturiol arfordir a chefn gwlad Cymru yw'r sail dros y diwydiant twristiaeth cynyddol, sy'n werth oddeutu £6.3bn y flwyddyn i economi Cymru. Er ei fod dan fygythiad i effeithiau pandemig Covid-19, gall gwelliannau i ansawdd a gwasanaethau greu cyfleoedd i wella perfformiad y sector drwy gynyddu gwerth ymweliadau ac arosiadau yng Nghymru.
- Wrth i weithio cynyddol o gartref ddod yn rhan o'r 'normal newydd', mae cyfleoedd i fanteisio ar y mewnlifiad o bobl gyda gwahanol sgiliau a'r gallu i fuddsoddi mewn datblygu a thyfu busnesau yng Nghymru wledig.

### **Heriau i Gymru Wledig**

Nid yw'r heriau strategol sy'n wynebu ardaloedd gwledig Cymru wedi newid ers datblygu'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig presennol. Fodd bynnag, mae effaith gronns ymagwedd o gydgasglu tuag at ddatblygu economaidd, gadael yr UE, Cytundeb Masnach tenau, ac effeithiau Covid-19 ar fusnesau wedi rhoi ffocws penodol ar y materion a amlygwyd:

- Cynhyrchedd isel, incymau isel a sail sgiliau isel
- Economi wedi ei dominyddu gan fusnesau micro a heriau i dwf a achoswyd gan fynediad i gyllid a llafurlu medrus
- Cysylltedd a chysylltiadau cludiant gwael i farchnadoedd trefol, gyda symudiad nwyddau a phobl yn ddibynnol iawn ar isadeiledd ffyrdd gwael.
- Materion demograffig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn allfudo
- Bygythiadau cymdeithasol ac economaidd i ardaloedd sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg
- Mynediad i wasanaethau, a chostau uwch y pen i ddarparu gwasanaethau lleol
- Cludiant cyhoeddus anaml, anhygyrch a chostus
- Gwasanaethau gofal iechyd cyfyngedig, wedi'i waethygu gan anhawster wrth recriwtio staff meddygol arbenigol
- Diffyg tai fforddiadwy a nifer uchel o aelwydydd oddi ar y prif grid cyflenwi nwy ac yn wynebu tlodi tanwydd
- Dibyniaeth drwm ar amaethyddiaeth, twristiaeth a'r sector cyhoeddus
- Cynhyrchwyr a phrosesyddion bwyd yn ddibynnol ar allforion Ewropeaidd, sydd mewn perygl yn sgil gadael yr UE
- Cysylltedd digidol gwael, gyda nifer o ardaloedd gwledig yn cynnwys mannau heb gyswllt band eang a signal ffôn symudol

### **RHAN 3 ADNODDAU A LLYWODRAETHU**

- Cydnabod rôl greiddiol awdurdodau lleol ac aelodau etholedig wrth gynrychioli buddiannau gwledig a chynnig atebolrwydd i gymunedau gwledig, wedi'u cefnogi gan y dynodiad priodol o gymwyseddau awdurdod lleol a gan gyllid digonol a theg er

mwyn galluogi darpariaeth deg o wasanaethau cyhoeddus a datblygiad gwledig ar draws pob rhan o Gymru wledig.

- Sicrhau fod datblygiad a arweinir gan, a gyda chyfranogiad gweithredol cymunedol, yn cael ei fabwysiadu fel egwyddor allweddol i ddarparu blaenoriaethau o fewn y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol i hwyluso cynllunio a darpariaeth yn seiliedig ar leoedd mewn ymateb i anghenion a chyfleoedd a nodir yn lleol.
- Sicrhau fod adnoddau'n cael eu diogelu i alluogi a hwyluso gwireddiad ymatebion arloesol i anghenion penodol a chyfleoedd yr economi wledig a chymunedau; ynghyd â chyllid i brif-ffrydio a chynyddu graddfa syniadau llwyddiannus.
- Trigolion Cymru wledig yw traean poblogaeth Cymru, ac er mwyn cyflawni'r Weledigaeth Wledig hon, mae angen adnoddau priodol i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu cymunedau gwledig. Mae angen ffocws penodol ar faterion Gwledig i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn llawn ar draws pob maes polisi, strategaeth a rhaglenni ariannu Llywodraeth Cymru.
- Ystyriaeth bellach o fecanweithiau delifro priodol ar gyfer Gofynion Allweddol ac ymgorfforiad teg blaenoriaethau gwledig yn y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a strategaethau y Bargenion Tŵf a Dinesig, a phrawfesur polisiau Llywodraeth Cymru o safbwynt anghenion gwledig ar draws pob maes polisi.
- Byddem yn croesawu cyfranogiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio cyfleoedd i gefnogi Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn cymunedau gwledig, a sicrhau bod gwerth Cymru wledig, yn arbennig bod cysylltiadau â'r Gymraeg yn cael eu diogelu a'u cryfhau.
- Cydlynu gyda argymhellion adroddiad OECD 'Dyfodol Datblygiad Rhanbarthol a Buddsoddiad Cyhoeddus yng Nghymru', gan gynnwys pwyslais ar gydlynu, datganoli penderfyniadau a chyfnewid ymarfer arloesol y ddwy ffordd.
- Sicrhau Rhaglen Datblygu Gwledig olynol ar gyfer y cyfnod pontio yn dilyn gadael yr UE a haen wledig arbenigol i'r Gronfa Rhannu Ffyniant.